

Archwilio Cartrefi Gofal i Blant

Adolygiad Cenedlaethol 2018 – 2019



Crynodeb pobl ifanc

Ni yw Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW).

Rydym yn ymweld â llefydd sy'n gofalu am blant ac oedolion ac yn eu harchwilio:

- cartrefi gofal i blant â phrofiad o ofal.
- cartrefi gofal i oedolion iau
- gofal dydd i blant
- gwasanaethau maethu
- asiantaethau mabwysiadu
- ysgolion arbennig preswyl
- ysgolion preswyl
- gofal yn y cartref.

Rydym yn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gofalu am bobl yn y ffordd gywir.

Os nad ydynt yn gwneud yr hyn sy'n ofynnol ganddynt, rydym yn cymryd camau er mwyn sicrhau eu bod yn gwella.

Os nad ydynt yn ddiogel, gallwn eu cau a'u hatal rhag darparu gwasanaethau.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r hyn a ddysgom wrth archwilio cartrefi gofal i blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru.



Mae rhai plant yn derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Roedd
6,407
o blant yn derbyn
gofal yng Nghymru
(Mawrth 2018).

Mae rhai o'r plant hynny sy'n derbyn gofal mewn cartrefi plant.

Gall cartrefi gael eu rhedeg gan y canlynol:

- awdurdodau lleol
- sefydliadau gwirfoddol neu elusennau
- busnesau preifat.

Rydym yn eu galw'n ddarparwyr cartrefi.

Roedd
178
o blant yn derbyn gofal
yng Nghymru
(Mawrth 2019).

Darparwyr cartrefi:

Mae **14%** ohonynt yn awdurdodau lleol

Mae **5%** ohonynt yn sefydliadau gwirfoddol neu elusennau

Mae **81%** ohonynt yn fusnesau preifat.

Roedd
465
o blant yn byw mewn
cartrefi gofal
yng Nghymru
(Gorffennaf 2018).

Yr hyn a wnaethom

Gwnaethom ymweld â chartrefi plant ledled Cymru rhwng Gorffennaf 2018 a Mawrth 2019.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

- ansawdd y gofal
- pa mor dda y maent yn gofalu am iechyd a llesiant plant
- sut y maent yn helpu plant i gyflawni eu nodau
- barn plant am fywyd yn y cartref
- yr heriau wrth ddarparu gofal mewn cartref plant.

Gwnaethom siarad â'r canlynol:

- darparwyr cartrefi
- y staff sy'n gweithio yno
- y plant sy'n byw yno.



Gwnaethom ddefnyddio 10 datganiad i archwilio cartrefi gofal.

1 Dylai plant ymweld â'r cartref cyn symud i mewn.

2 Dylai plant gael cynllun personol.

3 Dylid diwallu anghenion iechyd plant.

4 Dylid diwallu anghenion addysgol plant.

5 Dylai plant gael cyfleoedd i fod yn gymdeithasol a mwynhau gweithgareddau.

6 Dylai plant gael gofal a chymorth o ansawdd da.

7 Dylai plant gael eu cefnogi i gyflawni eu nodau a chyrraedd eu llawn botensial.

8 Dylai plant fod yn ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed.

9 Dylai plant fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u mwynhau.

10 Dylai plant fyw mewn cartref cynnes, diogel a chyfforddus.

1. Dylai plant ymweld â'r cartref cyn symud i mewn.

Yr hyn a ddywedodd plant wrthym

Roedd rhai ohonynt wedi ymweld â'r cartref, wedi cyfarfod â phlant eraill a'r staff ac yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn y broses o symud, ond nid oedd hyn yn wir am bawb.

- Ar ôl i mi gyrraedd, roedd '12 awr o wallgofrwydd' a arweiniodd at orfod galw am ambiwlans.
- Roeddwn i'n gwybod mod i'n symud ond yn meddwl bod pythefnos gen i: yna dywedon nhw fod angen i mi symud yfory. Roedd hynny ychydig cyn y Nadolig... roeddwn i'n flin â'r gweithiwr cymdeithasol.
- Rwy'n credu y gallai'r plant gael eu symud i mewn ychydig yn gyflymach, pe bai angen.

Yr hyn a ddysgom

Mae ymweld â'r cartref yn golygu bod plant yn cael gweld lle byddant yn byw, cwrdd â staff a'r bobl y byddant yn byw gyda nhw.

Mae cynllunio'n dda cyn symud i mewn yn gwneud gwahaniaeth i blant a dylid sicrhau eu bod yn ymweld â'r cartref ymlaen llaw gan ei fod yn sicrhau'r canlynol:

- y gallant gyfarfod â phlant eraill yn y cartref
- y gallant gyfarfod â'r staff a fydd yn gofalu amdanynt
- y gall y staff yn y cartref baratoi ar gyfer plentyn sy'n symud i mewn i'r cartref.

Weithiau, ni chaiff y broses o symud plant ei chynllunio'n dda neu bydd yn rhaid eu symud ar frys. Nid yw hyn yn rhoi amser iddynt ymweld â'r cartref ymlaen llaw.

Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach iddynt symud ac mae'n achosi problemau eraill.

Meysydd i'w gwella

Dylai darparwyr cartrefi sicrhau eu bod yn gwneud y canlynol:

- ystyried pob agwedd ar fywyd y plentyn cyn cynnig lle iddo
- rhoi systemau ar waith sy'n helpu'r plentyn i symud
- paratoi ar gyfer anghenion y plentyn a sicrhau y gellir eu diwallu.

Dylai awdurdodau lleol gadw gwybodaeth gyfredol i'w rhannu â'r staff yn y cartrefi.



2. Dylai plant gael cynllun personol.

Yr hyn a ddywedodd plant wrthym

Roedd rhai o'r plant yn teimlo eu bod yn chwarae 'rhan fawr' yn y broses o ysgrifennu eu cynlluniau.

Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn teimlo eu bod yn 'cael eu cynnwys i raddau'.

● Rwy'n gallu siarad â'm gweithiwr allweddol am fy nheimpladau.

● Rwy'n ymddiried yn llwyr yn y gweithwyr yn fy nghartref ac yn cael hwyl gyda nhw.

➡ Yr hyn a ddysgom

Gwelsom sawl enghraifft dda o gynlluniau personol a oedd yn:

- nodi'r gofal a'r cymorth gofynnol
- rheoli risgiau
- cynnwys cymorth emosiynol
- helpu i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff.

Mae rhai plant yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a chadw cofnodion ar gyfer eu cynlluniau.

Mae gan rai plant weithiwr allweddol sy'n eu helpu i ysgrifennu eu cynllun.

Nid yw pob cynllun yn nodi'r cymorth a gynigir yn glir.

Nid yw pob plentyn yn cael cyfle i fod yn rhan o'r broses.



▲ Meysydd i'w gwella

Dylai darparwyr cartrefi sicrhau eu bod yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod plant yn deall eu cynlluniau personol
- cynnwys plant yn y broses o ysgrifennu eu cynlluniau
- bwrw golwg ar y cynllun yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y plentyn.

3. Dylid diwallu anghenion iechyd plant.

Yr hyn a ddywedodd plant wrthym

Dywedodd rhai plant wrthym:

- fod y staff yn eu helpu i gadw'n iach
- eu bod yn mwynhau coginio gan ei fod yn eu paratoi ar gyfer bywyd
- eu bod yn hoffi bwyta gyda'r staff gan ei fod yn rhoi ymdeimlad o deulu iddynt.

Dywedodd plant eraill nad oeddent yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i gadw'n iach.

 Mae'r oergell wedi'i chloi, a'r cypyrddau hefyd.

 Rydym yn cynllunio bwydlenni, yn mynd i siopa am fwyd. Rwy'n gallu helpu os ydw i eisiau.

Yr hyn a ddysgom

Mae'r rhan fwyaf o blant:

- yn cael cymorth i fyw bywyd iach
- wedi'u cofrestru â gwasanaethau iechyd lleol
- yn cael cymorth da gan Nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal
- yn cael cymorth ar gyfer materion sy'n ymwneud ag iechyd, megis chamddefnyddio sylweddau.

Mae bwyta'n iach yn rhan o ofal y plant mewn rhai cartrefi. Mae plant yn rhan o'r broses o gynllunio prydau, a'u coginio ac yn bwyta gyda'r staff yn ystod prydau bwyd.

Gwnaethom hefyd ddarganfod:

- bod plant hŷn weithiau'n colli cysylltiad â gwasanaethau iechyd
- nad yw'r wybodaeth iechyd bob amser yn gyfredol
- y gallir storio meddyginiaethau yn well er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel
- nad oes digon o wasanaethau iechyd meddwl
- nad yw rhai plant yn cael cymorth ar gyfer eu hanghenion iechyd.

Meysydd i'w gwella

Dylai awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr cartrefi gydweithio er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn y gwasanaethau iechyd sydd eu hangen arnynt.

Mae angen mwy o nyrsys arbenigol a gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer materion megis iechyd emosiynol, alcohol a chamddefnyddio cyffuriau.



4. Dylid diwallu anghenion addysgol plant.

Yr hyn a ddywedodd plant wrthym

Roedd yr ysgol yn bwysig iddynt – roedd yn gwneud iddynt deimlo'n 'normal'.

🗨️ Rwy'n falch fy mod yn mynd i'r brifysgol.
Rwyf wedi gweithio'n galed.

🗨️ Mae fy ysgol yn bwysig i fi.



➡ Yr hyn a ddysgom

Mae addysg yn bwysig, mae'n rhoi strwythur i'r diwrnod ac mae'n cynnig nifer o gyfleoedd eraill.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn derbyn cymorth i ddysgu a chyflawni eu nodau.

Mae rhai plant yn mynd i ysgolion lleol tra bod eraill yn mynd i ysgolion annibynnol.

Mae rhai plant wedi bod allan o addysg ers amser hir neu nid ydynt yn derbyn unrhyw addysg.

Mae gan rai cartrefi gydberthynas waith dda ag ysgolion.

Nid yw rhai awdurdodau lleol yn rhoi trefniadau addysg ar waith cyn i blant symud i mewn i gartref.

📈 Meysydd i'w gwella

Dylai awdurdodau lleol a darparwyr cartrefi wneud y canlynol:

- cydweithio a sicrhau bod plant yn cael addysg
- sicrhau nad yw plant yn colli unrhyw gyfleoedd i ddysgu
- sicrhau bod Cynllun Addysg Personol ar gael ac y caiff ei fonitro a'i gadw'n gyfredol.

5. Dylai plant gael cyfleoedd i fod yn gymdeithasol a mwynhau gweithgareddau.

Yr hyn a ddywedodd plant wrthym

Roeddent yn cael llawer o gyfleoedd i gwblhau gweithgareddau.

Mae digon o arian i wneud pethau.

Rwy'n chwarae rygbi i'r tîm lleol ac yn mynd i'r sgowntiaid.

Rwy'n cael cynllunio fy ngweithgareddau ar gyfer yr wythnos ac mae hyn yn cynnwys amser rhydd yn ogystal â gweithgareddau yn y tŷ.

Roeddent yn hoff iawn o brydau tecawê ar nos Wener.

Dywedodd rhai ohonynt:

- eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael yr un cyfleoedd â phlant eraill.
- nad oeddent yn gallu cwblhau'r gweithgareddau o'u dewis oherwydd rheolau'r awdurdod lleol.

Yr hyn a ddysgom

Mae'r rhan fwyaf o gartrefi yn galluogi plant i fwynhau'r gweithgareddau canlynol:

- timau chwaraeon
- clybiau ieuenctid
- dringo creigiau
- plymio
- mynd ar wyliau
- ymweliadau gan ffrindiau
- gwirfoddoli
- cael swydd.

Mae rhai cartrefi yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i gadw'n ddiogel i'w galluogi i fwynhau gweithgareddau.

Meysydd i'w gwella

Dylai awdurdodau lleol a darparwyr cartrefi gydweithio er mwyn galluogi plant i fwynhau gweithgareddau.



6. Dylai plant gael gofal a chymorth o ansawdd da.

Yr hyn a ddywedodd plant wrthym

Gwnaed nifer o sylwadau cadarnhaol am y gofal a'r cymorth. Roedd y plant yn hoffi cael gweithiwr allweddol.

-  Rwyf wrth fy modd mewn gofal preswyl.
-  Rwy'n teimlo'n ddiogel gyda'r staff, maen nhw'n tawelu fy meddwl.
-  Y peth da am y cartref yw bod gennych chi bobl sy'n eich cefnogi.
-  Y therapi yw'r peth gorau am fyw mewn gofal preswyl. Siarad am fy nheimpladau a pheidio â chadw'r cyfan mewn.
-  Rwyf wedi gweld gormod o bobl yn mynd a dod – 5 aelod o staff a 12 o blant dros gyfnod o ychydig flynyddoedd, felly mae'n anodd creu cydberthnasau.
-  Ar y dechrau, doeddwn i ddim wedi setlo yn fy mywyd teuluol ac mae'r staff fan hyn wedi fy nghefnogi drwy bob penderfyniad anodd a wnaed ac wedi mynd yr ail filltir o ran fy ngofal yma.

➔ Yr hyn a ddysgom

Mae'r gofal a'r cymorth yn well pan fydd gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd.

Mae rhai cartrefi yn:

- defnyddio ffyrdd creadigol o weithio i gefnogi plant
- cyflogi staff sydd wedi'u hyfforddi i ddelio â materion megis hunan-niweidio
- rheoli ymddygiad yn dda
- cynnwys plant yn y broses o ysgrifennu rheolau a chynlluniau ar gyfer y cartref.

Mewn rhai cartrefi, mae therapyddion yn cydweithio â phlant ar gyfer eu hanghenion emosiynol. Fodd bynnag, mynychu cyfarfodydd staff a rhoi cyngor yn unig a wna therapyddion mewn cartrefi eraill.

Mae'r staff yn defnyddio dulliau rhwystro corfforol i atal ymddygiad gwael ar adegau. Nid oes gan bob aelod o'r staff yr hyfforddiant cywir yn hyn o beth. Nid yw pob awdurdod lleol yn monitro hyn yn ddigonol.

📈 Meysydd i'w gwella

Dylai darparwyr cartrefi sicrhau eu bod yn gwneud y canlynol:

- edrych ar eu dull o ddarparu gofal
- creu systemau sy'n gweithio'n dda
- creu dulliau clir o ddelio â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad a risgiau a'u rheoli

Dylai awdurdodau lleol archwilio'r ffordd y mae cartrefi plant yn delio â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad a risgiau.



7. Dylai plant gael eu cefnogi i gyflawni eu nodau a chyrraedd eu llawn botensial.

Yr hyn a ddywedodd plant wrthym

Roeddent am gael cymorth i symud allan a byw ar eu pen eu hunain fel oedolion.

Roedd rhai ohonynt yn derbyn cymorth cam wrth gam i feithrin ymddiriedaeth ynddyn nhw eu hunain ac mewn staff.

☞ Rwyf am aros yma ychydig yn hirach wrth i fi gael swydd newydd ac rwyf eisiau symud yn ofalus a pheidio â brysio.

☞ Rwyf ti'n meithrin ymddiriedaeth â phobl. Wrth i ti ennill ymddiriedaeth, rwyf ti'n cael mwy ohoni – fel mynd ar y trêr ar dy ben dy hun.

☞ Mae'r staff yn garedig ac eisiau'r gorau i mi.

☞ Rwy'n cael amser rhydd.

☞ Mae'n dda cael gweithiwr allweddol. Mae'n gofyn a ydw i'n iawn ac yn fy helpu i gael y pethau ymarferol sydd eu hangen arnaf.

➡ Yr hyn a ddysgom

Pan fydd gwasanaethau yn gweithio gyda chartrefi, mae plant yn gwneud yn well.

Pan fydd angen i blant symud yn aml, mae'n anoddach iddynt gyflawni eu nodau.

Mae rhai cartrefi yn helpu plant i fyw'n annibynnol pan fyddant yn tyfu i fod yn oedolion. Nid yw hyn yn wir am bob cartref.

Mae cynlluniau rhai awdurdodau lleol yn canolbwyntio'n ormodol ar y tymor byr.

Mae rhai penderfyniadau yn cymryd gormod o amser.

▲ Meysydd i'w gwella

Dylai darparwyr cartrefi sicrhau eu bod yn gwneud y canlynol:

- ystyried rhoi rhaglenni byw'n annibynnol ar waith
- gweithio i ddatblygu cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â phlant.



8. Dylai plant fod yn ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed.

Yr hyn a ddywedodd plant wrthym

- 🗨️ Rwy'n meddwl bod y staff yn gwybod sut i amddiffyn y plant yn dda ac yn gwybod sut i ofalu amdanynt.
- 🗨️ Mae'r staff yn orofalus pan ddaw at gyfrifiaduron.
- 🗨️ Rwy'n teimlo'n ddiogel yma ac maent yn gwybod beth i'w wneud pan na allaf reoli fy nheimpladau.
- 🗨️ Rwy'n gwybod sut i gadw'n ddiogel drwy wneud yn siŵr fy mod bob amser yn aros mewn grŵp mawr o bobl ac yn cyfarfod â'r bois (staff) sy'n fy nghasglu i mewn man sydd wedi'i oleuo'n dda er mwyn mynd â fi adref.

➡ Yr hyn a ddysgom

Mae gan y rhan fwyaf o gartrefi asesiadau a systemau sy'n cadw plant yn ddiogel.

Mae'r staff yn gweithio'n galed i feithrin ymddiriedaeth â phlant i'w hatal rhag dianc o'r cartref.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant sylfaenol da ond mae angen rhagor o hyfforddiant arnynt i ddeall a nodi risgiau.

Mae angen i rai cartrefi sicrhau bod ganddynt y canlynol:

- asesiadau risg gwell sy'n ymwneud â chynlluniau personol
- systemau gwell i atal plant rhag mynd ar goll
- cydberthnasau gwaith gwell ag awdurdodau lleol a'r heddlu
- systemau gwell i atal plant rhag dechrau troseddu.



Meysydd i'w gwella

Dylai awdurdodau lleol a darparwyr cartrefi wneud y canlynol:

- archwilio eu cynlluniau ar gyfer rhoi gwybod am blant sydd ar goll
- sicrhau bod canllawiau i'r staff
- cydweithio â'r heddlu er mwyn atal plant rhag dechrau troseddu.



9. Dylai plant fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u mwynhau.

Mae gan bob plentyn hawliau. Maent wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Yr hyn a ddywedodd plant wrthym

Roeddent yn ymwybodol o'u hawliau, gan gynnwys sut i gwyno.

Dywedodd y plant ei bod hi'n bwysig iddynt gael eu clywed.

Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Roedd cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau yn hawl pwysig iddynt.

 Rwy'n gweld eisiau mam a pheidio â gweld fy mrawd.

 Ar hyn o bryd, dydw i ddim yn gweld fy nheulu.

 Mae popeth yn dda heblaw byw mor bell oddi wrth fy nheulu.

 Mae'n cymryd tair awr a hanner yn y car i weld fy nheulu.

Yr hyn a ddysgom

Mae'r rhan fwyaf o gartrefi gofal yn trafod eu hawliau â'r plant ac yn eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau.

Mae llawer o blant yn deall y gallant gael eiriolwr os bydd angen un arnynt.

Mae plant yn deall bod eiriolwr ar eu hochr nhw er mwyn helpu i sicrhau y gwrandewir arnynt.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cael cymorth gan eiriolwr pan fydd ei angen arnynt.

Mae Tros Gynnal a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol yn ymweld â'r rhan fwyaf o gartrefi.

Meysydd i'w gwella

Dylai awdurdodau lleol a darparwyr cartrefi wneud y canlynol:

- sicrhau bod plant yn ymwybodol o wasanaethau eirioli
- sicrhau y gall pob plentyn gael gafael ar wasanaethau eirioli, gan gynnwys plant anabl.
- rhoi mwy o wybodaeth am y cartref a'i wasanaethau
- sicrhau y gall plant gael addysg
- cynnig mwy o gyfleoedd i gwblhau gweithgareddau chwarae a hamdden.



10. Dylai plant fyw mewn cartref cynnes, diogel a chyfforddus.

Yr hyn a ddywedodd plant wrthym

- Rwyf wedi addurno fy ystafell sawl gwaith.
- Mae gen i fywyd newydd yma, rwy'n teimlo'n ddiogel yn y cartref.
- Dwi ddim yn cael cymorth i dacluso fy ystafell wely gan fy mod yn ei dacluso fy hun.
- Rwy'n teimlo'n ddiogel ond weithiau pan fyddaf yn clywed pethau drwg ar y newyddion sydd wedi digwydd yn fy ardal leol, mae'n gwneud i fi boeni braidd.

➡ Yr hyn a ddysgom

Mae'r rhan fwyaf o gartrefi:

- yn gynnes, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn ddiogel
- yn cynnwys ystafelloedd gwely â dodrefn da
- yn gyfforddus
- yn diwallu anghenion plant gan gynnwys plant anabl
- yn cynnwys gerddi a thir da
- yn caniatáu i'r plant addurno a phersonoli eu hystafelloedd gwely.

Mae rhai cartrefi:

- yn cloi ystafelloedd gwely gan olygu bod yn rhaid i'r plant ofyn i'r staff eu hagor
- angen gwaith atgyweirio a dodrefn gwell
- yn atal plant rhag addurno eu hystafelloedd
- wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n peri mwy o risg i blant.

📈 Meysydd i'w gwella

Dylai darparwyr cartrefi sicrhau eu bod yn gwneud y canlynol::

- darparu adnoddau i addurno a chwblhau gwaith atgyweirio
- hyrwyddo llesiant
- cwblhau asesiadau risg o'u hardal.



Arwain a rheoli

Mae'n bwysig rheoli cartrefi yn dda. Gall wneud gwahaniaeth mawr i iechyd, llesiant a chanlyniadau plant.

Wrth archwilio cartrefi, gwelsom sawl arweinydd a rheolwr da gan nodi'r canlynol amdanynt:

- maent yn y cartref yn aml ac ar gael i siarad
- mae ganddynt systemau da i ddiwallu anghenion plant
- mae ganddynt systemau da i recriwtio, cynnal gwiriadau a datblygu'r staff
- mae ganddynt bolisiau, gweithdrefnau a gwybodaeth glir a chyfredol.

Meysydd i'w gwella

Dylai darparwyr cartrefi sicrhau eu bod yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod y staff yn cael eu cyflwyno'n briodol i'r cartref a'u bod yn cael hyfforddiant
- sicrhau bod yr holl reolwyr a'r staff yn derbyn hyfforddiant
- rhoi systemau ar waith i archwilio ansawdd y gofal a'r cymorth.

Diolch am ddarllen yr adolygiad hwn

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma:

arolygiaethgofal.cymru/ein-hadroddiadau

